

TLODI AC ETHNIGRWYDD YNG NGHYMRU

Mae'r astudiaeth ansoddol hon o dlodi ac ethnigrwydd yng Nghymru'n canolbwyntio ar brofiadau 47 o bobl o bum grŵp ethnig – Bangladeshaidd, Pacistanaidd, Somaliiaidd, Pwylaidd a gwyn Prydeinig/Cymreig – sy'n byw mewn dinas fawr, ar arfordir gogledd Cymru, yng nghymoedd de Cymru neu yng nghefn gwlad.

Pwyntiau allweddol

- Canfu'r astudiaeth wahaniaethau amlwg yn y lefelau tlodi a'r profiadau o dlodi ymhlith cyfweleion. Nid oedd y gwahaniaethau hyn yn cael eu hachosi gan ethnigrwydd, ond gan wahaniaethau yn y lle yr oedd pobl yn byw a'r cydadwaith rhwng eu cyfalaf dynol, cyfalaf cymdeithasol, hawlogaethau ac agweddau, ffordd o feddwl a dewisiadau. Hiliaeth a gwahaniaethu, sydd weithiau'n uniongyrchol gysylltiedig ag ethnigrwydd pobl, ond hefyd er enghraifft, â'u hedrychiad neu eu crefydd, oedd y prif eithriad.
- Roedd gwahaniaethau yn y ffactorau hyn yn adlewyrchu achosion sylfaenol eraill, megis gwahaniaethau ym mhrofiadau ymfudo pobl a'u rhywedd. Er enghraifft, ymhlith cyfweleion Pwylaidd a oedd wedi ymfudo'n ddiweddar i Gymru i gael gwaith, roedd sgiliau ac agweddau tuag at waith yn helpu i leihau tlodi, tra'r oedd rhwydweithiau cymdeithasol yn helpu'r dynion Pacistanaidd mwy sefydledig yn yr astudiaeth i ymdopi.
- Mae pwysigrwydd y ffactorau lluosog hyn yn pwysleisio pwysigrwydd edrych y tu hwnt i ddeilliannau, a all fod yn gysylltiedig ag ethnigrwydd (megis lefelau tlodi uwch ymhlith rhai grwpiau ethnig) i ganolbwyntio ar yr achosion sylfaenol. Mae angen i gynlluniau i leihau tlodi o fewn grwpiau ethnig arbennig fod yn rhan o strategaethau gwrthdlodi ar gyfer y boblogaeth gyfan.
- Mae polisiâu i gryfhau cyfalaf cymdeithasol a dynol ac ymestyn mynediad at hawlogaethau'n hanfodol – er enghraifft, buddsoddi mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar ac mewn manau cyhoeddus.
- Mae angen i'r polisiâu hyn gael eu hategu gan ymyriadau i roi cymorth i newid agweddau, ffordd o feddwl ac ymddygiad pobl mewn perthynas â chyflogaeth, a chan ddadansoddiad manylach o effaith polisiâu cyffredinol ar grwpiau ethnig penodol.
- Byddai peth gwaith wedi'i dargedu o gymorth arbennig i grwpiau penodol, yn enwedig darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol i staff rheng-flaen mewn rhai gwasanaethau.

Yr ymchwil

Gan Duncan Holtom o'r Uned Pobl a Gwaith
ac Ian Bottrill o ContinYou Cymru

HYDREF 2013

CEFNDIR

Roedd yr astudiaeth hon yn ymdrin â'r bylchau mewn gwybodaeth am y berthynas rhwng ethnigrwydd, lle a thlodi yng Nghymru. Roedd yn canolbwyntio ar brofiadau 27 o deuluoedd o bum grŵp ethnig: Bangladeshaidd, Pacistanaidd, Pwylaidd, Somaliaidd a gwyn Prydeinig/Cymreig (y'i gelwir felly am fod y grŵp yma'n disgrifio'u hunain mewn gwahanol ffyrdd, sef Cymreig, Prydeinig, Prydeinig a Chymreig, neu Seisnig). Nodweddid yr ymatebwyr gan lefelau cymharol uchel o dlodi. Fe astudiwyd pedwar lle gwahanol: Caerdydd, ardal fetropolitan fawr; cymoedd de Cymru; Sir Gaerfyrddin, ardal wledig; a'r Rhyl, ar arfordir gogledd Cymru,

Gan mai astudiaeth ansoddol oedd hon, nid yw profiadau grŵp arbennig, megis Somaliaid, yn awgrymu mai'r un yw profiadau'r holl Somaliaid yng Nghymru; dim ond profiad y Somaliaid yn yr astudiaeth hon oedd y rhain.

Ffactorau allweddol sy'n effeithio ar dlodi

Roedd pum ffactor yn arbennig o rymus wrth egluro lefelau tlodi a phrofiadau o dlodi:

- *Lle*, a oedd yn dylanwadu ar y modd yr oedd pobl yn teimlo yn ystod bywyd pob dydd, eu mynediad at dai, cyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau cyhoeddus.
- *Cyfalaf dynol*, gan gynnwys iechyd, gwybodaeth a sgiliau, a oedd yn dylanwadu ar allu pobl i adnabod ac achub ar gyfleoedd, i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, a'u gwydnwch yn wyneb heriau.
- *Cyfalaf cymdeithasol* – y perthnasoedd cynhyrchiol yr oedd pobl yn eu cynnal gydag eraill; er enghraifft, roeddent yn helpu pobl i ymdopi trwy roi help a chefnogaeth emosiynol a mynediad at wybodaeth.
- *Hawlogaethau* i fudd-daliadau a gwasanaethau cyhoeddus.
- *Agweddau, ffordd o feddwl a dewisiadau* am lwybrau posib allan o dlodi, megis cyflogaeth ac addysg a hyfforddiant.

Roedd ymatebwyr yn ystyried mai cyflogaeth oedd y prif lwybr posib allan o dlodi, ond fe wnaethant hefyd nodi rhwystrau i ddod o hyd i, a chamu ymlaen i gyflogaeth. Roedd eu gallu i oresgyn y rhwystrau hyn yn dibynnu ar eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol, cyngor a chymorth, a'u hagweddau, eu ffordd o feddwl a dewisiadau, gan gynnwys parodrwydd i symud er mwyn chwilio am waith ac i dderbyn 'gwaith gwael'.

O'i gyferbynnu, roedd agweddau tuag at addysg a hyfforddiant (llwybr arall posib) yn aml yn amwys. Ac eithrio cyrsiau iaith Saesneg, roedd pobl ar y cyfan yn llawer cliriach ynghylch gwerth a phwysigrwydd addysg a hyfforddiant i'w plant, yn hytrach nag iddynt hwy eu hunain.

Roedd hawlogaethau'n darparu rhwyd ddiogelwch, gan helpu i atal amddifadrwydd, er nad oeddent yn ddigon i godi pobl allan o dlodi. Serch hynny, roedd hawlogaethau'n gyfyngedig i rai, megis ceiswyr lloches, yn peidio â chael eu hawlio'n llawn, neu'n anghyflawn i eraill (e.e. lle bernid bod gwasanaethau cyhoeddus yr oedd gan bobl hawl iddynt yn annigonol); roedd hyn yn dylanwadu ar lefelau tlodi a phrofiadau o dlodi. Roedd gwahaniaethau yn y ffactorau hyn, megis hawlogaethau pobl neu gryfder eu cyfalaf dynol a chymdeithasol, yn gysylltiedig â ffactorau sylfaenol eraill, megis eu llwybr ymfudo, eu hoedran a'u rhywedd.

Dylanwad ethnigrwydd ar lefelau tlodi a phrofiadau o dlodi yng Nghymru

Er bod aelodau o bob un o'r pum grŵp ethnig mewn tlodi, roedd gwahaniaethau pwysig yn eu profiadau a'u deilliannau. Roedd y rhain yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y lleoedd yr oeddent yn byw ynddynt, eu cyfalaf dynol a chymdeithasol, eu hawlogaethau a'u hagweddau, eu ffordd o feddwl a'u hymddygiad. Roedd y gwahaniaethau hyn yn golygu:

- Mai'r teuluoedd Pwylaidd yn yr astudiaeth oedd y rhai mwyaf gwaith-ganolog a gwydn. Hwy oedd y mwyaf tebygol o fod mewn gwaith ac i'w gweld yn gallu ymdopi orau â heriau. Serch hynny, roeddent yn aml yn teimlo wedi'u hynysu ac roeddent wedi'u cyfyngu i 'waith gwael' gyda thâl isel a heb lawer o ragolygon ar gyfer datblygiad gyrfa, gan ei gwneud yn anodd dianc rhag tlodi.

- Bod y teuluoedd Pacistanaidd yn yr astudiaeth yn ymdopi i raddau helaeth. Hwy oedd â'r rhwydweithiau cymorth mwyaf ac roeddent yn tueddu i fyw mewn lleoedd y teimlid eu bod yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn diwallu eu hanghenion beunyddiol. Fodd bynnag, ychydig ohonynt oedd yn gweithio; roedd ymdeimlad o flaenoriaethu diogelwch a sefydlogrwydd uwchlaw strategaethau i ddianc rhag tlodi, megis chwilio am waith.
- Bod nifer o'r teuluoedd Bangladeshaidd a astudiwyd yn ei chael yn anodd; ychydig oedd yn gweld sut y gallent ddianc rhag tlodi. Er bod y dynion a gyfwelwyd yn aml yn gweithio, roeddent wedi'u cyfyngu i waith 'gwael' a rhan-amser. Roedd menywod a gyfwelwyd yn dymuno gweithio, ond yn teimlo nad oeddent yn gallu gwneud hynny, yn bennaf oherwydd sgiliau iaith Saesneg cyfyngedig. Er eu bod yn byw mewn lleoedd yr ystyrid eu bod yn ddiogel, yn gynhwysol ac yn diwallu eu hanghenion beunyddiol, roedd nifer yn anfodlon iawn ar eu tai. Roedd rhwydweithiau cymorth teuluol yn nodweddiadol yn troelli o gwmpas teulu'r gŵr, gan gyfyngu ar eu gwerth i fenywod.
- Bod gwahaniaethau mawr rhwng profiadau teuluoedd Somaliaidd yn yr astudiaeth, a bod profiadau dynion a menywod yn wahanol iawn. Roedd rhai dynion yn flin am yr hiliaeth a oedd yn eu tyb hwy'n eu dal yn ôl ac yn eu hatal rhag dod o hyd i waith neu 'waith da', er eu bod yn byw yn agos iawn at ganolfannau pŵer a chyfoeth. O'i gyferbynnu, roedd cyfweleion benywaidd yn canolbwyntio'n fwy ar fagu plant, ac felly'n teimlo anawsterau dod o hyd i gyflogaeth yn llai garw. Roedd profiadau a lefelau tlodi'r rheiny a oedd wedi dod i'r DU fel ceiswyr lloches yn wahanol iawn i'r rheiny a oedd wedi ymfudo dan amgylchiadau llai trawmatig, neu a aned yn y DU. I nifer a oedd wedi cyrraedd fel ceiswyr lloches, roedd eu profiadau cychwynnol yn aml yn anodd iawn, er bod hyn wedi gwella wedi iddynt sicrhau statws cyfreithiol ac wedi i'w hawlogaethau gael eu hymestyn.
- Bod y teuluoedd gwyn Prydeinig/Cymreig yn yr astudiaeth yn ei chael yn anodd ar y cyfan; roeddent yn aml yn teimlo'n agored iawn i niwed ac weithiau'n wangalon. Roedd y rheiny a oedd mewn gwaith yn teimlo'u bod wedi'u cyfyngu i 'waith gwael'. Roedd iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael yn cyfyngu'n ddifrifol ar ragolygon cyflogaeth nifer a oedd allan o waith, gan eu gadael yn ddibynnol iawn ar eu hawlogaethau. Roedd eu rhwydweithiau cymdeithasol yn aml yn doredig hefyd. Roedd yr allgau cymdeithasol, yr arwahanrwydd a'r natur agored i niwed a oedd yn deillio o hynny'n cyfrannu at deimladau o iselder a diymadferthedd.

Felly er bod ethnigrwydd yn gysylltiedig â gwahanol brofiadau o dlodi a lefelau tlodi, ychydig o dystiolaeth oedd mai dyma oedd yn eu hachosi. Er enghraifft, er bod nifer o gyfweleion Pacistanaidd, Pwylaidd a Somaliaidd yn cael bod cyfyngiad ar eu cyfleoedd gwaith a'u hawlogaethau, yn enwedig oherwydd eu sgiliau iaith Saesneg, nid oherwydd eu hethnigrwydd yr oedd hyn ond am eu bod wedi dod i'r DU fel ymfudwyr. Profiadau o, a chanfyddiadau am hiliaeth a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig ag ethnigrwydd oedd y prif eithriad i hyn.

Effaith lle ar dlodi yng Nghymru

Roedd ymatebwyr yn credu'n gryf bod lle yn effeithio ar eu bywydau. O ganlyniad, roedd nifer wedi symud, neu'n bwriadu symud, i leoedd newydd. Roedd nifer o'r ffactorau a oedd yn dylanwadu ar brofiadau beunyddiol pobl yn gysylltiedig â chyfansoddiad ethnig lleoedd.

Fodd bynnag, roedd lle ar y cyfan yn cael llai o effaith o lawer ar lefelau tlodi. Er y gallai mynediad at gyfleoedd cyflogaeth (sy'n aml yn gysylltiedig â lleoedd arbennig a'u cysylltiadau cludiant) fod yn amod angenrheidiol ar gyfer gostwng lefelau tlodi, nid oedd yn ddigonol ynddo'i hun. Roedd ffactorau eraill, megis diffyg gwybodaeth a sgiliau, yn atal cyfweleion rhag manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth lleol.

Casgliad

Canfu'r astudiaeth gyswllt cryf rhwng tlodi ac ethnigrwydd, ond ychydig o dystiolaeth bod ethnigrwydd yn achosi tlodi. Roedd pum ffactor – lle, cyfalaf dynol, cyfalaf cymdeithasol, hawlogaethau, ac agweddau, ffordd o feddwl a dewisiadau – yn arbennig o rymus wrth egluro gwahaniaethau mewn lefelau tlodi a phrofiadau o dlodi ar draws y pum grŵp ethnig, ac i raddau llai, rhwng gwahanol aelodau o bob grŵp ethnig, megis dynion a menywod.

Roedd dewisiadau pobl ynghylch cyflogaeth – y prif lwybr allan o dlodi – ac i raddau llai, addysg a'r lle yr oeddent yn byw, yn debygol o gael dylanwad mawr ar lefelau tlodi. Fodd bynnag, roedd ffactorau eraill yn aml yn cyfyngu ac yn dylanwadu ar eu dewisiadau, gan gynnwys: agweddau allweddol ar eu cyfalaf dynol, megis iechyd a sgiliau; eu mynediad at gymorth a chynngor, a allai eu cysylltu â gwybodaeth ac adnoddau a fyddai'n gallu eu helpu i ddianc rhag tlodi; a normau cymdeithasol, gan gynnwys rolau'r rhywiau.

Argymhellion polisi

Gwella lleoedd

- Adolygu effeithiolrwydd bil tai Cymru sydd ar fin dod i rym ac effaith hwnnw ar wahanol grwpiau ethnig.
- Adolygu effeithiolrwydd polisiâu plismona cymunedol o ran hybu cysylltiadau cymunedol da, yn enwedig mewn ardaloedd aml-ethnig.

Datblygu cyfalaf dynol

- Cynnal buddsoddiad cynyddol mewn darpariaeth blynnyddoedd cynnar.
- Sicrhau ffocws cryfach ar werthuso'r cynnydd a wneir gan wahanol grwpiau ethnig yn yr ysgol.
- Adolygu'r ddarpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill i ystyried sut i'w gwella.

Cryfhau cyfalaf cymdeithasol

- Sicrhau bod buddsoddi mewn mannau cyhoeddus a gweithgareddau diwylliannol yn cryfhau cyfalaf cymdeithasol.
- Cefnogi ffocws cymunedol ysgolion.

Gwella mynediad at hawlogaethau a'r nifer sy'n eu hawlio

- Sicrhau bod strategaethau datblygu'r gweithlu'n asesu'r angen am hyfforddiant cymdeithasol a diwylliannol i staff rheng-flaen, a chynllunio ar gyfer ei ddarparu.

Ymestyn hawlogaethau i grwpiau agored i niwed

- Gweithredu ar argymhellion *Adroddiad yr ymchwiliad seneddol i gymorth lloches ar gyfer plant a phobl ifanc* (Cymdeithas y Plant, 2013).

Newid agweddau, ffordd o feddwl ac ymddygiad

- Dylai gwerthusiadau'r Rhaglen Waith asesu i ba raddau y mae'n diwallu anghenion gwahanol grwpiau ethnig.
- Mae angen ystyried y cyfleoedd i ddatblygu cymorth lleol i helpu i newid agweddau, ffordd o feddwl ac ymddygiad pobl mewn perthynas â chyflogaeth.
- Dylai'r Llywodraeth ystyried penodi hyrwyddwr menter menywod.
- Mae angen rhoi sylw i ffyrdd o roi cymorth gyda threfniadau gweithio hyblyg a rhan-amser.

Argymhelliad trosfwaol

- Mae angen i gynlluniau i leihau tloedi mewn grwpiau ethnig arbennig fod yn rhan o strategaethau gwrthdlodi ar gyfer y boblogaeth gyfan.

Ynglŷn â'r prosiect

Cyflawnwyd yr ymchwil ar gyfer chwe sefydliad yn y sector gwirfoddol. O fewn y pedair ardal a astudiwyd, fe gynhaliwyd cyfweiliadau trylwyr gyda theuluoedd o ddau neu dri grŵp ethnig. Roedd y ffocws yma ar deuluoedd yn hytrach nag unigolion yn ei gwneud yn bosib archwilio cwestiynau allweddol ar gyfer yr astudiaeth, megis effaith rhywedd ac oedran. Cafodd y cyfweiliadau eu hategu gan chwe grŵp ffocws gyda rhanddeiliaid o bob grŵp ethnig, a thrafodaethau bord-gron gyda chynrychiolwyr o sefydliadau yn y sector statudol a gwirfoddol.

I GAEL MWY O WYBODAETH

Mae'r adroddiad llawn, **Poverty and ethnicity in Wales** gan Duncan Holtom, Ian Bottrill a Jack Watkins, ar gael i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim yn www.jrf.org.uk

Gellir darllen mwy o grynodedau yn
www.jrf.org.uk
Mae fformatau eraill ar gael
ISSN 0958-3084

Sefydliad Joseph Rowntree
The Homestead
40 Water End
York YO30 6WP
Ffôn: 01904 615905

e-bost: Publications@jrf.org.uk
www.jrf.org.uk
Cyf: 2919

JRFF

JOSEPH
ROWNTREE
FOUNDATION



INSPIRING
SOCIAL
CHANGE